



Ministry
of Justice

Diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol: Bil Hawliau Modern

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mehefin 2022

CP 704



Ministry
of Justice

Diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol: Bil Hawliau Modern

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mehefin 2022



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [Trwydded Llywodraeth Agored](#).

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at HRAreform@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-3520-2

E02763658

06/22

Argraffwyd ar bapur lle mae o leiaf 40% o'r cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt 4

Cwynion neu sylwadau 4

Rhagair 5

Crynodeb Gweithredol 6

Pennod 1 - Parchu ein traddodiadau cyfraith gwlad a chryfhau rôl Goruchaf Lys y DU 13

Dehongliad o Hawliau'r Confensiwn : adran 2 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 13

Sefyllfa Goruchaf Lys y DU 14

Treial gerbron rheithgor 15

Rhyddid Mynegiant 16

Pennod 2 - Adfer ffocws cliriach ar amddiffyn hawliau sylfaenol 19

Cam caniatâd ar gyfer hawliadau hawliau dynol 19

Rhwymediau barnwrol: adran 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 20

Rhwymedigaethau cadarnhaol 21

Pennod 3 - Atal ehangu hawliau fesul cam heb oruchwyliaeth ddemocrataidd briodol 23

Parchu ewyllys y Senedd: adran 3 of o'r Ddeddf Hawliau Dynol 23

Pan fo Deddfwriaeth yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn: adrannau 4 a 10 o'r Ddeddf Hawliau Dynol a gorchmynion diddymu 25

Datganiad o gydnawsedd: adran 19 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 27

Awdurdodau Cyhoeddus - adran 6 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 29

Cwmpas alldiriogaethol 30

Hawliau cymwys a chyfyngedig 31

Alltudio er budd y cyhoedd 32

Mudo anghyfreithlon ac afreolaidd 33

Rhwymediau a budd ehangach y cyhoedd 33

Pennod 4 - Pwysleisio rôl cyfrifoldebau o fewn fframwaith hawliau dynol 35

Pennod 5 - Hwyluso ystyriaeth a deialog gyda Strasbwrg, wrth warantu rôl briodol y Senedd 36

Pennod 6 - Effeithiau 37

Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg 38

Asesiad effaith 38

Cydraddoldebau 39

Prawf ar effaith yr iaith Gymraeg 40

Casgliad a chamau nesaf 42

Egwyddorion ymgynghori 43

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgyngori ar gyfer y papur ymgynghori, Diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol: Bil Hawliau Modern.

Bydd yn cwmpasu:

- Crynodeb gweithredol, yn ymdrin â chefnidir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â'r **tîm Hawliau Dynol** yn y cyfeiriad isod:

MoJ Hawliau Dynol

Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

E-bost: HRAreform@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Gellir gofyn i gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol drwy e-bostio HRAreform@justice.gov.uk.

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Rhagair

Hoffwn ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar *Ddiwygio'r ddeddf hawliau dynol: Bil Hawliau Modern y Llywodraeth*. Mae eich mewnbwn wedi cyfrannu at gyflwyno Bil Hawliau ar gyfer y DU gyfan i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol bresennol.

Mae gan y DU hanes hir a balch o ryddid a hawliau unigolion. Mae'n deillio yn ôl i'r Magna Carta arloesol, a lofnodwyd gan y Brenin Ioan yn 1215, a'r Bil Hawliau a'r Hawliad Hawliau a gyhoeddwyd yn 1689, a oedd yn nodi llawer o'r hawliau sifil sylfaenol yr ydym yn eu mwynhau hyd heddiw. Mae'r hanes hwnnw'n parhau hyd at ddeddfau mwy modern a luniwyd i amddiffyn hawliau unigolion, megis Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Cyflwynwyd y Ddeddf Hawliau Dynol yn 1998. Er gwaethaf ei diffygion difrifol, mae wedi chwarae ei rhan yn natblygiad hawliau ein gwlad dros bron i chwarter canrif. Yn wir, un o gryfderau mawr cyfansoddiad y DU yw ei allu i esblygu i ddiwallu anghenion ein cymdeithas. Dyma'r amser i edrych o'r newydd ar ein fframwaith hawliau dynol.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud i raddau helaeth â mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gennym ynglŷn â'r ffordd yr oedd y Ddeddf Hawliau Dynol yn gweithio'n ymarferol. Roedd yn delio â'r berthynas eang rhwng llysoedd y DU a'r Senedd yn ogystal â Llys Hawliau Dynol Ewrop, ochr yn ochr â phroblemau penodol fel allgludo troseddwr o dramor.

Fel y nodais pan lansiais yr ymgynghoriad, bwriadwn barhau i fod yn wladwriaeth sy'n barti yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae ein cynigion ar gyfer y Bil Hawliau yn canolbwyntio ar greu fframwaith domestig sy'n sicrhau cydbwysedd priodol rhwng hawliau a chyfrifoldebau, rhyddid unigolion a budd y cyhoedd, dehongliad barnwrol, a pharch at awdurdod gwneuthurwyr cyfraith etholedig.

Bydd y Bil Hawliau yn pwysleisio hawliau allweddol y DU fel rhyddid i lefaru, sydd wrth wraidd i drafodaeth gadarn mewn democratiaeth aeddfed a modern fel ein un ni, ac yn adlewyrchu treial gan reithgor fel elfen benodol o'r gyfraith gyffredin sy'n cynhwyso'r hawl i dreial teg. Byddwn hefyd yn rhoi diffiniad llawer cliriach ynglŷn â'r broses o rannu pwerau rhwng y llysoedd a'r Senedd.

Yn yr un modd, rydym am wneud yn siŵr bod ein cyfreithiau hawliau dynol yn cael eu diogelu'n well rhag cael eu camddefnyddio. Felly, byddwn yn gosod amddiffyn y cyhoedd wrth galon deddfau hawliau dynol ac yn sefydlu fframwaith i alluogi ein deddfau mewnfudo i atal troseddwr tramor difrifol rhag manteisio ar rai hawliau, yn enwedig yr hawl i fywyd teuluol, fel sail i beidio cael eu cludo ymaith er budd y cyhoedd. Yn olaf, byddwn yn

cyflwyno cam caniatâd, er mwyn i farnwyr allu didoli'r hawliadau mwyaf dibwys cyn iddynt wastraffu mwy o amser y llys ac arian y trethdalwyr.

Mae pobl o bedair gwlad y DU wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chydweithwyr ledled y DU ac ar draws y sbectrwm gwleidyddol i greu Bil Hawliau sy'n gweithio nid yn unig i bob un o bedair gwlad ein Hundeb, ond sydd hefyd yn adlewyrchu ac yn parchu ein traddodiadau cyfreithiol amrywiol.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi bod yn gam pwysig tuag at feithrin traddodiad balch y DU o ryddid a hawliau. Bydd yn caniatáu i ni gyflwyno Bil sy'n atgyfnerthu ein traddodiad unigryw o ryddid yn y DU, yn cyfyngu ar gamddefnyddio'r system i wneud ein strydoedd yn fwy diogel, yn adfer hyder y cyhoedd mewn hawliau dynol, yn atgyfnerthu annibyniaeth ein barnwriaeth o'r radd flaenaf, ac yn grymuso'r broses o rannu pwerau er mwyn diogelu hawliau gwneuthurwyr cyfraith etholedig yn y Senedd.

Y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS

Dirprwy Brif Weinidog, Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Cyfiawnder

Crynodeb Gweithredol

1. Y papur ymgynghori '*Diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol: Cyhoeddwyd y Bil Hawliau Modern*' ar 14 Rhagfyr 2021. Roedd yn gwahodd sylwadau ar gynigion i adolygu a disodli Deddf Hawliau Dynol 1998 gyda Bil Hawliau'r DU. Roedd 29 cwestiwn yn yr ymgynghoriad, yn ymdrin â'r pynciau â ganlyn y gellid mynd i'r afael â hwy yn y Bil Hawliau:

Dehongli hawliau'r Confensiwn: Adran 2 y Ddeddf Hawliau Dynol	Gweinyddiaethau Datganoledig
Sefyllfa Goruchaf Lys y DU	Awdurdodau Cyhoeddus – Adran 6
Treial gan Reithgor	Awdurdodaeth Alldiriogaethol
Rhyddid Mynegiant	Hawliau cymwys a chyfyngedig
Cam caniatâd ar gyfer hawliadau hawliau dynol	Allgludo er budd y cyhoedd
Rhwymediau barnwrol	Mudo anghyfreithlon ac afreolaidd
Rhwymedigaethau cadarnhaol	Atebion a budd ehangach y cyhoedd
Ewyllys y Senedd – Adran 3	Pwysleisio rôl cyfrifoldebau o fewn y fframwaith hawliau dynol
Datganiadau o Anghydnawsedd	Hwyluso ystyriaeth a deialog gyda Strasbwrg, wrth warantu rôl briodol y Senedd
Gorchmynion Unioni	Effeithiau
Datganiad Cydnawsedd – Adran 19	

2. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 8 Mawrth 2022, a rhoddwyd estyniadau tan 19 Ebrill 2022 i ganiatáu ar gyfer y rheini a fyddai'n cael cymorth gan fersiwn Hawdd

ei Ddeall neu fersiwn sain o'r ymgynghoriad. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd, gan gynnwys sut y dylanwadodd y broses ymgynghori ar y cynigion polisi terfynol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Hawliau.

3. Cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddeg digwyddiad ymgynghori yn ystod y cyfnod ymgynghori a gwahoddwyd cannoedd o randdeiliaid o bob rhan o'r Deyrnas Unedig i gymryd rhan. Pwrpas y sesiynau hyn oedd clywed barn gychwynnol ar y cynigion ac ateb unrhyw gwestiynau eglurhaol. Cynhaliodd y Gweinidogion hefyd dri chyfarfod â rhanddeiliaid i drafod y cynigion, ac ymwelodd y Dirprwy Brif Weinidog â'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i drafod y cynigion ag aelodau o'r llywodraethau datganoledig, deddfwrfeydd, prif bleidiau gwleidyddol a barnwriaethau.
4. Diweddarwyd y trosolwg o'r effeithiau a ddaeth gyda'r ymgynghoriad i ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori ac roedd yn rhan o'r Aseiad Effaith ar gyfer y Bil Hawliau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon.
5. Mae papur ymateb yr iaith Gymraeg i'w weld yn gov.uk
6. Derbyniwyd 12,873 o ymatebion i'r papur ymgynghori. Cafwyd ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd, academyddion, melinau trafod, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a chwmnïau cyfreithiol, sefydliadau anllywodraethol ac elusennau, ymhlith eraill.
7. Fe wnaethom ystyried pob ymateb yn ofalus ar gyfer y teimlad cyffredinol a godwyd tuag at y diwygiadau, gan gynnwys a oedd ymatebwyr yn cefnogi neu'n gwrthwynebu cynigion penodol, tystiolaeth o effeithiau'r cynigion, ac unrhyw ffyrdd amgen o fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad.
8. Yn fras, gellir rhannu'r ymatebion a ddaeth i law yn ddau fath: y rhai nad aeth i'r afael â chwestiynau'r ymgynghoriad yn fanwl ond a fynegodd farn gyffredinol ar yr ymgynghoriad ("**sentiment analysis**"); a'r rhai a atebodd rai neu bob un o'r cwestiynau yn benodol ("**thematic analysis**"). Daw'r rhan fwyaf o'r sylwadau manwl a'r canrannau yn ymateb y Llywodraeth, felly, o ddadansoddiad thematig.
9. Ar ôl ystyried yr ymatebion a datblygiad polisi pellach, mae'r Llywodraeth wedi cynhyrchu cynigion sydd wedi'u nodi isod yn yr adrannau a ganlyn:
 - Parchu ein traddodiadau cyfraith gwlad a chryfhau rôl Goruchaf Lys y DU;
 - Adfer ffocws cliriach ar ddiogelu hawliau sylfaenol;
 - Atal ehangu cynyddol ar hawliau heb oruchwyliaeth ddemocrataidd briodol;

- Pwysleisio rôl cyfrifoldebau o fewn y fframwaith hawliau dynol;
- Hwyluso ystyriaeth a deialog gyda Strasbwrg, wrth warantu rôl briodol y Senedd; ac
- Effeithiau

10. Dyma grynodedb gweithredol o gynigion y Llywodraeth.

Parchu ein traddodiadau cyfraith gwlad a chryfhau rôl Goruchaf Lys y DU

11. Roedd yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori'n canolbwyntio ar ddehongli hawliau'r Confensiwn (adran 2 o'r Ddeddf Hawliau Dynol), sefyllfa'r Goruchaf Lys, treial gan reithgor a rhyddid mynegiant. Fel y nodir yn y ddogfen, bydd y Bil Hawliau yn parhau i barchu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU fel parti i'r Confensiwn, a bydd yn cadw'r holl hawliau sylweddol a warchodir ar hyn o bryd o dan y Confensiwn a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae'r ddogfen yn amlinellu y bydd cynigion y Llywodraeth yn helpu i gryfhau ein traddodiad cyfraith gyffredin, lleihau ein dibyniaeth ar gyfraith achosion Strasbwrg ac atgyfnerthu goruchafiaeth Goruchaf Lys y DU wrth ddehongli hawliau dynol. Dyma fydd y Bil Hawliau yn ei wneud:

- Disodli adran 2 gyda darpariaeth i gyfarwyddo llysoedd i roi sylw arbennig i destun hawliau'r Confensiwn eu hunain, a darparu y cânt roi sylw i waith paratoi'r Confensiwn, y gyfraith gyffredin a chyfraith sifil yr Alban, er mwyn annog llysoedd i beidio â chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar gyfraith achosion Strasbwrg;
- Darparu bod yn rhaid i lysoedd domestig beidio ag ymestyn amddiffyniad hawliau'r Confensiwn ymhellach nag y byddai Llys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbwrg yn mynd, a chadarnhau'n benodol nad oes angen iddynt ddilyn neu gymhwyso cyfraith achos Strasbwrg (ond gallant barhau i'w hystyried);
- Cadarnhau'n benodol mai Goruchaf Lys y DU yw'r canolwr barnwrol eithaf wrth ddehongli ein hawliau domestig;
- Darparu bod modd sicrhau'r hawl i dreial teg trwy dreial gan reithgor, i'r graddau y mae hyn wedi'i ragnodi gan y gyfraith ym mhob awdurdodaeth;
- Cryfhau amddiffyniad ar gyfer rhyddid i lefaru drwy gyflwyno darpariaeth sy'n gryfach nag adran 12 o'r Ddeddf Hawliau Dynol, i roi pwysau ychwanegol ar yr hawl. Byddwn yn sicrhau bod pob awdurdod cyhoeddus yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am roi'r pwysau ychwanegol hwn wrth gydnabod bod yn rhaid i ryddid barn hefyd gael ei gydbwyso yn erbyn yr angen i amddiffyn diogelwch

enedlaethol, cadw pobl yn ddiogel a chymryd camau i amddiffyn rhag niwed i unigolion; a

- Gwneud darpariaeth benodol ar gyfer diogelu ffynonellau newyddiadurwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn yn well.

Adfer ffocws cliriach ar amddiffyn hawliau sylfaenol

12. Roedd yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori'n canolbwyntio ar gyflwyno cam caniatâd ar gyfer hawliadau hawliau dynol, rhwymedïau barnwrol (adran 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol) a rhwymedigaethau cadarnhaol. Bydd cynigion y Llywodraeth yn adfer ffocws craffach ar hawliau sylfaenol, gan gynnwys trwy sicrhau bod achosion dibwys yn cael eu hidlo'n gynt a rhoi mwy o eglurder i lysoedd y DU ynghylch dehongli hawliau a gorfodi trwy oblygiadau o rhwymedigaethau cadarnhaol. Dyma fydd y Bil Hawliau yn ei wneud:

- Cyflwyno cam caniatâd wedi'i fodelu ar feini prawf derbynoldeb Llys Strasbwrg, yn Erthygl 35 o'r Confensiwn. Yn benodol, bydd yn berthnasol lle dibynnir ar hawliau'r Confensiwn mewn adolygiad barnwrol a hawliadau sifil eraill, megis achosion cyfraith breifat. Bydd y cam caniatâd yn cynnwys gofyniad bod yn rhaid i hawlydd fod wedi dioddef anfantais sylweddol er mwyn dwyn hawliad hawliau dynol (yn amodol ar fudd cyhoeddus eithriadol);
- Ymgorffori set o egwyddorion ar gyfer dyfarnu iawndal i ganiatáu i lysoedd y DU ystyried dyfarniadau o'r fath yng nghyd-destun y DU, a sicrhau nad yw llysoedd y DU yn dyfarnu iawndal uwch nag y maent yn ystyried y byddai Llys Strasbwrg yn ei ddyfarnu. Byddwn hefyd yn cyflwyno darpariaeth i lysoedd gymryd i ystyriaeth holl amgylchiadau'r achos wrth wneud dyfarniad, gan gynnwys budd ehangach y cyhoedd, ac i ystyried yn benodol rai ffactorau megis ymddygiad perthnasol yr unigolyn sy'n ceisio iawndal, ac unrhyw rhwymedi arall y maent wedi cael caniatâd iddo, a'r effaith ar allu awdurdod cyhoeddus i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r gymdeithas gyfan, gan gynnwys dyfarnu iawndal yn y dyfodol mewn achosion tebyg; a
- Atal dehongliadau newydd o hawliau sy'n creu ac yn ehangu rhwymedigaethau cadarnhaol, er mwyn lliniaru'r baich ar awdurdodau cyhoeddus a galluogi arbenigwyr gweithredol i arfer mwy o ddisgresiwn wrth ddyrannu adnoddau.

Atal ehangu hawliau fesul cam heb oruchwyliaeth ddemocrataidd briodol

13. Roedd yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori yn canolbwyntio ar barchu ewyllys y Senedd, pan fo deddfwriaeth yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn, datganiadau cydnawsedd (adran 19 o'r Ddeddf Hawliau Dynol), cymhwysiad i'r gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau cyhoeddus, awdurdodaeth alldiriogaethol, gymwysedig a hawliau cyfyngedig, alltudio, mudo anghyfreithlon ac afreolaidd a rhwymedïau. Bydd cynigion y Llywodraeth yn atal ehangu hawliau fesul cam heb oruchwyliaeth ddemocrataidd briodol, gan gynnwys drwy gyfyngu ar y ddyletswydd ar lysoedd y DU i ddehongli deddfwriaeth a ddeddfir gan y Senedd yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn, a thrwy gyfyngu ar bwerau'r llys wrth ystyried alltudio a rhai hawliau, ond hefyd gan gyffwrdd ag agweddau eraill o'r fframwaith hawliau. Dyma fydd y Bil Hawliau yn ei wneud:

- Dileu pŵer y llysoedd i ddehongli deddfwriaeth mewn ffyrdd nad ydynt yn cyd-fynd ag ystyr arferol y geiriau a diben cyffredinol y statud, a fydd yn sicrhau y caiff cyfreithiau eu dehongli mewn modd sy'n gyson ag ewyllys y Senedd;
- Rhoi gallu ehangach i lysoedd ddatgan bod is-ddeddfwriaeth yn anghydnaws, fel rhwymedi ychwanegol sydd ar gael;
- Ei gwneud yn glir na all y Bil Hawliau ei hun gael ei ddiwygio drwy orchymyn adfer;
- Peidio ag ailadrodd rhwymedigaeth adran 19 i wneud datganiad cydnawsedd, er mwyn symud i ffwrdd o'r opsiynau deuaidd gor-sympl y mae'n eu cynnig. Bydd hyn yn annog llunio polisiau arloesol a chreadigol sy'n cyflawni nodau'r Llywodraeth yn well, heb atal effeithiau hawliau dynol rhag cael eu hystyried wrth basio Bil;
- Gweithredu un fframwaith hawliau dynol ar gyfer y DU sy'n parchu ei thraddodiadau cyfreithiol amrywiol, ond sydd hefyd yn seiliedig ar egwyddorion sy'n gyffredin i bawb;
- Disodli adran 6 gyda darpariaeth debyg ond gyda chwmpas diwygiedig i'w gwneud yn glir, pan fydd awdurdodau cyhoeddus yn gweithredu ewyllys y Senedd, na fyddant yn gweithredu'n anghyfreithlon o dan y Bil Hawliau. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i wasanaethau cyhoeddus wneud y swyddi a ymddiriedwyd iddynt, heb y bygythiad cyson o orfod amddiffyn yn erbyn hawliadau hawliau dynol;
- Atal hawliadau rhag cael eu dwyn o dan y Bil Hawliau mewn perthynas â gweithrediadau milwrol dramor yn unol â bwriadau drafftwy'r Confensiwn. Bydd hyn yn arwydd o'n hymrwymiad ar lefel ddomestig i'r egwyddor na ddylai'r Bil Hawliau fod yn gymwys yng nghyd-destun ymgyrchoedd milwrol dramor;

- Darparu canllawiau i'r llysoedd, gan nodi, lle mae'r Senedd wedi mynegi ei barn ar fudd y cyhoedd drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, y dylai'r llysoedd feirniadu'r farn honno;
- Cyflwyno fframwaith i arwain y llysoedd o ran sut maent yn ystyried deddfau allgludo mewn perthynas ag achosion apêl Erthygl 8 (hawl i barchu bywyd teuluol a phreifat) gan droseddwr o dramor. Byddwn hefyd yn gosod cyfyngiadau ar bŵer y llysoedd pan fyddant yn ystyried achosion apêl yn erbyn allgludo a wneir ar sail Erthygl 6 (hawl i dreial teg).
- Sicrhau bod y llysoedd yn gallu ystyried holl amgylchiadau'r achos wrth benderfynu a ddylid dyfarnu iawndal, a'u cwantwm, gan gyfeirio at nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys ymddygiad ehangach perthnasol hawlwr, ac effaith bosibl unrhyw iawndal a ddyfernir ar allu'r awdurdod cyhoeddus i gyflawni ei swyddogaethau.

Pwysleisio rôl cyfrifoldebau o fewn y fframwaith hawliau dynol

14. Roedd yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori yn canolbwyntio ar farn y Llywodraeth y dylai ein fframwaith hawliau dynol newydd adlewyrchu pwysigrwydd cyfrifoldebau. Bydd y Bil Hawliau yn cyflwyno darpariaethau i sicrhau bod llysoedd yn rhoi ystyriaeth benodol i ymddygiad ehangach perthnasol hawlwr wrth ystyried a ddylid dyfarnu iawndal. Bydd hyn yn cadarnhau'r cysylltiad sy'n bodoli rhwng hawliau a chyfrifoldebau, ac yn rhoi sylfaen statudol i allu'r llysoedd i ystyried holl amgylchiadau'r achos wrth wneud y penderfyniad hwnnw.

Hwyluso ystyriaeth a deialog gyda Strasbwrg, wrth warantu rôl briodol y Senedd

15. Roedd yr adran hon o'r ddogfen ymgynghori yn canolbwyntio ar sut mae'r cyfrifoldeb democrataidd am ddeddfwriaeth, a'r pŵer i ddeddfu, yn disgyn yn y pen draw ar y Senedd, a chred y Llywodraeth y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn ein trefniadau ar gyfer ymateb i ddyfarniadau Strasbwrg. Dyma fydd y Bil Hawliau yn ei wneud:
 - cyflwyno darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol osod unrhyw ddyfarniadau anffafriol gan Strasbwrg yn erbyn y DU gerbron y Senedd; a
 - cadarnhau goruchafiaeth y Senedd wrth arfer y swyddogaeth ddeddfwriaethol, drwy egluro statws dyfarniadau a phenderfyniadau Strasbwrg yng nghyfraith y

DU.

Mesurau pellach heb eu cynnwys yn yr ymgynghoriad

16. Yn ogystal â'r mesurau a godwyd yn y ddogfen ymgynghori, bydd y Bil Hawliau yn cynnwys y mesurau ychwanegol a ganlyn:

- Darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n dehongli hawliau'r Confensiwn roi sylw i bwysigrwydd lleihau risg i'r cyhoedd gan y rhai sydd wedi'u cael yn euog o drosedd yn ystod cyfnod dedfryd o garchar. Bwriad hyn yw cefnogi diwygiadau parôl arfaethedig y Llywodraeth a chryfhau llaw'r Llywodraeth wrth frwydro yn erbyn hawliadau Erthygl 8 gan garcharorion sy'n gwrthwynebu eu lleoli mewn canolfannau gwahanu. Gall hefyd gryfhau gallu'r Llywodraeth i amddiffyn hawliadau hawliau dynol a ddygir ynghylch alltudio troseddwr sy'n wladolion tramor;
- Darpariaeth i gadarnhau nad yw mesurau interim a gyhoeddwyd gan Lys Strasbwrg yn unol â Rheol 39 o'i Reolau Llys yn rhan o gyfraith ddomestig y DU; ac
- Yn olaf, mae'r Llywodraeth hefyd yn dymuno gweithredu dyfarniad Strasbwrg yn *SW v Y Deyrnas Unedig*, a ddaeth yn derfynol ym mis Medi 2021. Roedd yr achos hwn yn ymwneud â chyfyngiadau ar argaeledd iawndal ar gyfer gweithredoedd barnwrol a wneir yn ddidwyll o dan y Ddeddf Hawliau Dynol (adran 9). Dyfarnodd Llys Strasbwrg fod yr hawl i fywyd preifat a theuluol wedi'i dorri (Erthygl 8). Felly byddwn yn ailddatgan adran 9 o'r Ddeddf Hawliau Dynol, ond yn cynnwys gwelliant pellach sy'n caniatáu i iawndal fod ar gael pan fydd hawliau unigolyn o dan Erthygl 8 yn cael eu torri o ganlyniad i farnwr yn dilyn gweithdrefn annheg.

Pennod 1 – Parchu ein traddodiadau cyfraith gwlad a chryfhau rôl y Goruchaf Lys

17. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar yr ymatebion i gynigion y Llywodraeth i helpu i gryfhau ein traddodiad cyfraith gyffredin, lleihau ein dibyniaeth ar gyfraith achosion sy'n dod o Lys Hawliau Dynol Ewrop, a helpu i atgyfnerthu goruchafiaeth Goruchaf Lys y DU wrth ddehongli hawliau dynol. Bydd y bennod hon yn ymdrin â'r cynigion canlynol:

- Dehongli hawliau'r Confensiwn: adran 2 o'r Ddeddf Hawliau Dynol;
- Sefyllfa Goruchaf Lys y DU;
- Treial gan reithgor; a
- Rhyddid mynegiant.

Dehongli hawliau'r Confensiwn: adran 2 o'r Ddeddf Hawliau Dynol

18. O dan adran 2 o'r Ddeddf Hawliau Dynol, rhaid i lysoedd yn y DU 'ystyried' unrhyw gyfreitheg Strasbwrg berthnasol. Ym mlynnyddoedd cynnar y Ddeddf Hawliau Dynol (HRA), mae'r Llywodraeth yn dadlau bod y llysoedd wedi mynd yn rhy bell wrth ddilyn bron pob penderfyniad gan Strasbwrg. Er y bu rhywfaint o gilio oddi wrth y safbwynt mwyaf posibl hwn, mae amwysedd y cyfarwyddyd i 'ystyried' cyfreithiau achos Strasbwrg yn parhau i fod yn ffynhonnell o ansicrwydd. Yn yr ymgynghoriad, fe gynigiom gywiro hyn drwy hyrwyddo dull llawer gwlad sydd wedi'i deilwra i draddodiadau rhyddid a hawliau'r DU.

19. Yng Nghwestiwn 1 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd am farn ar gymalau drafft enghreifftiol (sydd i'w gweld yn atodiad 2 y ddogfen ymgynghori), fel ffordd o gyflawni hyn. O'r 1,870 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol, roedd yn well gan 1,052 (56%) beidio â newid y fframwaith presennol. Roedd yn well gan 416 o ymatebwyr (22%) Opsiwn 2, roedd yn well gan 378 (20%) y naill na'r llall; ac roedd 24 (2%) yn ffafrio Opsiwn 1.

20. Soniodd 1,270 o ymatebwyr hefyd fod Llys Strasbwrg yn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cael ei chadw dan reolaeth, tra tynnodd 943 o ymatebwyr sylw at y ffaith bod y llysoedd eisoes yn defnyddio ystod eang o gyfreithiau wrth wneud eu

penderfyniadau, felly nid oedd achos dros newid. Nododd 63 o ymatebwyr y dylem gael ein llywodraethu gan gyfraith gwlad.

21. Rydym wedi darllen yr ymatebion a ddarparwyd i'r cwestiwn hwn yn ofalus ac wedi ystyried y dadleuon. Roedd hyn yn cynnwys yr ymatebion hynny a roddodd sylwadau ar ddull y Panel Adolygu Deddf Hawliau Dynol Annibynnol (IHRAR) o ymdrin â'r mater hwn. Argymhellodd y Panel IHRAR y dylid diwygio adran 2 i roi mwy o amlygrwydd i gyfraith gwlad.
22. Mae'r Llywodraeth am bwysleisio pwysigrwydd datblygu hawliau o dan y gyfraith gyffredin. Byddai hyn yn cyfrannu at roi llai o bwyslais ar y rhan y mae penderfyniadau Llys Strasbwrg yn ei chwarae o ran dylanwadu ar lysoedd y DU.
23. Wrth ystyried hawliau, bydd llysoedd hefyd yn cael eu cyfarwyddo i roi sylw arbennig i destun yr hawl ei hun, ac wrth ddehongli gall y testun hwnnw roi sylw i waith paratoadol y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (*y travaux préparatoires*).
24. Drwy'r darpariaethau newydd hyn, byddwn yn annog llysoedd domestig i ddehongli hawliau gyda mwy o ymreolaeth oddi wrth Strasbwrg, gan helpu i sicrhau bod cyd-destun a thraddodiadau unigryw'r DU yn cael eu cydnabod a'u hadlewyrchu.
25. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn nodi'r risg y gallai llysoedd domestig ddehongli hawliau'n fwy eang nag y byddai Llys Strasbwrg yn ei gymryd, gan nodi na all awdurdodau cyhoeddus, yn wahanol i ymgeiswyr, fynd â'u hachos o'r llysoedd domestig i Lys Strasbwrg. Ni fyddai unrhyw ffordd o gywiro hyn. Mewn achosion diweddar, mae'r Goruchaf Lys wedi dyfarnu na ddylai llysoedd domestig gymryd dehongliadau o'r fath, oni bai eu bod yn gwbl hyderus y byddai Llys Strasbwrg yn gwneud hynny o dan yr un amgylchiadau.¹ Bydd y llywodraeth yn adlewyrchu'r ymagwedd hon mewn deddfwriaeth yn y Bil Hawliau.
26. Roedd y cymalau enghreifftiol yn y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys darpariaethau yn nodi y gall llysoedd ystyried cyfraith achosion o awdurdodaethau eraill. Yn dilyn ystyried yr ymatebion hyn ac ar ôl datblygu polisi pellach, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r agwedd hon o'r cynnig.

¹ AB, R (ar gais) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder [2021] UKSC 28 (9 Gorffennaf 2021) (baillii.org) ac R (ar gais Elan-Cane) (Apelydd) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref (Ymatebydd) - Y Goruchaf Lys.

Sefyllfa Goruchaf Lys y DU

27. Mae'r egwyddor y dylai ein Senedd a'n deddfwrfeydd datganoledig wneud cyfraith ac y dylai ein llysoedd ei dehongli yn elfen allweddol o'n system ddemocrataidd, ac mae cydnabod sofraniaeth y Senedd ac ymreolaeth ein llysoedd domestig yn sylfaenol i ddiwygiadau arfaethedig y Llywodraeth. O dan y Ddeddf Hawliau Dynol, mae'r llysoedd domestig yn gyffredinol wedi trin cyfraith achosion Strasbwrg fel un sydd ag awdurdod tybiedig, y dylid ei ddilyn oni bai bod amgylchiadau arbennig. Mae'r dull hwn wedi arwain yn anuniongyrchol at danseilio goruchafiaeth Goruchaf Lys y DU gan Strasbwrg.
28. Yng Nghwestiwn 2 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd sut y gallai'r Bil Hawliau egluro mai Goruchaf Lys y DU yw canolwr barnwrol ein cyfreithiau yn y pen draw.
29. Soniodd 1,763 o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt beidio â newid y trefniant presennol. Soniodd 714 o ymatebwyr fod adran 2 eisoes yn ei gwneud yn glir nad oes yn rhaid i Oruchaf Lys y DU ddilyn dyfarniadau Llys Strasbwrg.
30. Soniodd 213 o ymatebwyr fod angen gwahanu pŵer rhwng y llysoedd a'r Senedd. Soniodd 44 o ymatebwyr y dylem 'gorffori' statws y Goruchaf Lys yn y gyfraith.
31. Rydym wedi darllen yr ymatebion a ddarparwyd i'r cwestiwn hwn yn ofalus. Mae'r Llywodraeth yn glir na ddylai fod unrhyw ddryswch ynghylch rôl Goruchaf Lys y DU mewn perthynas â Llys Strasbwrg ac mae'n dymuno gwneud y rôl honno'n glir yn y Bil Hawliau.
32. Bydd y Bil Hawliau, felly, yn ei gwneud yn glir mewn darpariaeth mai Goruchaf Lys y DU yw'r awdurdod barnwrol terfynol ar gwestiynau ynghylch ystyr yr hawliau yn y Bil Hawliau. Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd y Bil Hawliau yn sicrhau bod hyn yn cael ei ddeall yn iawn ym mhob cyd-destun.

Treial gan reithgor

33. Mae llawer o egwyddorion treial teg wedi'u cynnwys yn y gyfraith gyffredin a'n treftadaeth gyfansoddiadol. Darparodd Magna Carta 'na fyddwn ni [y brenin] yn gwerthu, i neb wadu nac oedi hawl na chyfiawnder'. Roedd y Bil Hawliau ym 1689 yn nodi darpariaethau pellach gan gynnwys gwaharddiadau ar ddirwyon gormodol, mechnïaeth ac amddiffyn treial gan reithgor. Mae'r Confensiwn yn cydnabod treial gan reithgor, ond dim ond i'r graddau y canfu Llys Strasbwrg y gall treialon rheithgor fod yn gyson â'r hawl i dreial teg a warchodir gan Erthygl 6. Mae'r Llywodraeth yn credu bod lle i gydnabod treial gan reithgor yn y Bil Hawliau, o ystyried ei le hanesyddol arwyddocaol yn ein traddodiadau cyfreithiol, a'r rôl y gall treialon rheithgor ei chwarae wrth sicrhau tegwch rhai treialon.

34. Yng Nghwestiwn 3 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd a ddylai'r hawl amodol i dreial gan reithgor gael ei chydabod yn y Bil Hawliau. O'r 2096 o ymatebwyr, roedd 1,696 (81%) yn cytuno y dylai'r hawl amodol i dreial gan reithgor gael ei chydabod yn y Bil Hawliau.
35. Soniodd 524 o ymatebwyr fod yr hawl i dreial gan reithgor eisoes yn cael ei gydnabod ac nad oes angen unrhyw newid, a soniodd 453 o ymatebwyr fod treialon rheithgor yn llai tebygol o fod yn rhagfarnllyd. Nododd 151 o ymatebwyr hefyd y dylai fod gan unigolyn yr hawl i gael ei farnu gan ei gyfoedion.
36. Yn unol â'r mwyafrif helaeth o'r ymatebion a ddaeth i law, rydym am i'r Bil Hawliau gydnabod pwysigrwydd treial gan reithgor o fewn y fframwaith a nodir mewn deddfwriaeth. Byddai hyn yn rhoi mwy o amlygrwydd i draddodiad cartrefol yn y DU y mae cefnogaeth gref ac eang iddo. Drwy gynnwys y treial gan reithgor yn y Bil Hawliau, byddwn yn dangos ymrwymiad y DU i dreial gan reithgor fel un sy'n gallu darparu treial teg o dan Erthygl 6 ECHR.
37. Cododd nifer fach o ymatebwyr bryderon ynghylch sut y gallai ymgorffori hawl o'r fath ymyrryd â'r sefyllfa sefydlog mewn cenhedloedd eraill mewn perthynas â threial gan reithgor, yn enwedig yr Alban. Rydym wedi gwrandao'n ofalus ar y pryderon hyn. Mae ein cynigion yn cydnabod natur ddatganoledig a threfniadau gwahanol ar gyfer treial gan reithgor mewn gwahanol rannau o'r DU. Ni fydd y ddarpariaeth ond yn gymwys i'r graddau y mae trefniadau ar gyfer treial gan reithgor wedi'u pennu ym mhob awdurdodaeth ac yn parhau i gael eu pennu ganddynt, fel sydd o dan reolaeth Senedd y DU ar gyfer Cymru a Lloegr, a Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn y drefn honno.

Rhyddid mynegiant

38. Mae rhyddid mynegiant yn rhyddid unigryw a gwerthfawr y mae'r DU yn hanesyddol wedi rhoi pwyslais mawr arno yn ein traddodiadau o fraint Seneddol, rhyddid y wasg a rhyddid i lefaru. Mae'r Llywodraeth yn credu bod budd y cyhoedd yn cael ei gynorthwyo'n aruthrol gan warchod rhyddid mynegiant a chyfryngau rhydd a bywiog. Mae rhyddid o'r fath yn sail i'n democratiaeth, yn sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd, yn helpu i atal llygredigaeth ac yn cadw lle ar gyfer trafodaeth gyhoeddus eang ac egniol.
39. Yn yr ymgynghoriad, cyflwynodd y Llywodraeth gynigion a oedd yn ceisio rhoi mwy o bwysau ar ryddid mynegiant, gan roi arweiniad cliriach i lysoedd ar sut i gydbwysu'r hawl â hawliau sy'n cystadlu â'i gilydd. Mynegodd y ddogfen ymgynghori hefyd y bwriad i gryfhau'r amddiffyniadau ar gyfer ffynonellau newyddiadurwyr.

40. Gofynasom beth yw'r ffordd orau o ymgorffori'r cynigion hyn yn y Bil Hawliau. Mae'r ymatebion yn ymwneud â mater rhyddid mynegiant (Cwestiynau 4 – 7) wedi'u crynhoi isod. Cyflwynwyd llawer o'r ymatebion fel ymatebion cyffredinol i Gwestiynau 4 – 7 ac maent i gyd wedi'u hystyried.
41. Yng Nghwestiwn 4 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd sut y gellid diwygio'r sefyllfa bresennol o dan adran 12 o'r Ddeddf Hawliau Dynol i gyfyngu ar ymyrraeth â'r wasg a chyhoeddiadau eraill drwy waharddebau neu fathau eraill o ryddhad. Soniodd 630 o ymatebwyr nad oedd angen unrhyw newid i'r fframwaith presennol. Nododd 108 o ymatebwyr fod yn rhaid ystyried cydbwysedd preifatrwydd a soniodd 60 o ymatebwyr mai dim ond yr amgylchiadau mwyaf eithriadol sy'n cyfiawnhau gwaharddeb. Soniodd 59 o ymatebwyr na ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar ryddid mynegiant ac felly dim gwaharddebau.
42. Yng Nghwestiwn 5 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd sut y gellid rhoi canllawiau cliriach i'r llysoedd ynghylch y pwysigrwydd mwyaf a roddir i Erthygl 10 a pha ganllawiau y gellid eu deillio o fodolau rhyngwladol eraill. Soniodd 684 o ymatebwyr nad oes angen unrhyw newid i'r fframwaith presennol a soniodd 115 o ymatebwyr mai dim ond yr amgylchiadau mwyaf eithriadol sy'n cyfiawnhau ymyrraeth. O ran modelau rhyngwladol, awgrymodd 31 o ymatebwyr fod model Unol Daleithiau America yn ddefnyddiol i'w archwilio wrth roi'r pwysigrwydd mwyaf i ryddid mynegiant.
43. Yng Nghwestiwn 6 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd pa gamau pellach y gellid eu cymryd yn y Bil Hawliau i ddarparu amddiffyniad cryfach i ffynonellau newyddiadurwyr. Soniodd 543 o ymatebwyr fod angen camau ychwanegol i ddiogelu ffynonellau newyddiadurwyr a soniodd 339 o ymatebwyr nad oes angen unrhyw newid gan fod amddiffyniadau wedi'u gosod ar y lefel gywir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, soniodd 67 o ymatebwyr fod amddiffyniadau eisoes yn rhy gryf.
44. Yng Nghwestiwn 7 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd a oes unrhyw gamau eraill y gallai'r Bil Hawliau eu cymryd i gryfhau'r amddiffyniad ar gyfer rhyddid mynegiant. Soniodd 878 o ymatebwyr nad oes angen unrhyw newid a dadleuodd 227 o ymatebwyr na ddylid cyfyngu o gwbl ar ryddid mynegiant. Nododd 51 o ymatebwyr y dylid gosod cyfyngiadau ar gwmnïau cyfryngau cymdeithasol a'u gallu i sensro cynnwys.
45. Rydym wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarparwyd. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod rhyddid i lefaru – sy'n golygu hawl yr ECHR i ryddid mynegiant i'r graddau y mae'n cynnwys yr hawl i roi syniadau, barn neu wybodaeth drwy gyfrwng llafar, ysgrifenedig neu ddelweddau (gan gynnwys ar ffurf electronig) – yn arbennig o bwysig. Mae rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith yn

sail i'n democratiaeth, yn sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd, ac yn cadw'r gofod ar gyfer trafodaeth gyhoeddus eang ac egnïol. Felly, bydd y Bil Hawliau yn cryfhau'r hawl i ryddid barn yn benodol, yn hytrach nag agweddau eraill ar Erthygl 10 a rhyddid mynegiant yn ehangach. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd rhyddid i lefaru yn ein cymdeithas a bydd yn sicrhau bod unigolion yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gymryd rhan mewn trafodaeth gyhoeddus eang.

46. Byddwn yn darparu y dylid rhoi pwys mawr ar bwysigrwydd amddiffyn rhyddid i lefaru pryd bynnag y mae llysoedd neu awdurdodau cyhoeddus eraill yn ystyried mater yn ymwneud â rhyddid i lefaru, ac wrth gydbwysu'r hawl â hawliau ac amddiffyniadau eraill.
47. Er y bydd ein cynigion yn rhoi mwy o bwys ar ryddid i lefaru, mae'n parhau i fod yn hawl amodol y gellir ei chyfyngu, fel yn achos Erthygl 10 yn gyffredinol, lle bo'n rhesymol ac yn briodol gwneud hynny. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod bod rhai amgylchiadau lle na ddylid cryfhau'r hawl i ryddid i lefaru. Bydd y Bil Hawliau yn amlinellu eithriadau penodol, er enghraifft buddiannau diogelwch cenedlaethol.
48. Credwn fod gan newyddiadurwyr rôl bwysig yn ein cymdeithas, yn darparu cyfle i graffu ac yn dal i gyfrif y rhai sydd â phŵer. Felly, rydym wedi gwneud darpariaeth benodol ar gyfer ffynonellau newyddiadurwyr yn y Bil Hawliau, i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu hamddiffyn yn briodol. Bydd y ddarpariaeth yn cyflwyno prawf uwch i lysoedd ei ystyried cyn y gallant orchymyn newyddiadurwr i ddatgelu ei ffynhonnell. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod rheswm cymhellol er budd y cyhoedd i ganiatáu datgelu ffynhonnell newyddiadurwyr, a rhoddir pwys mawr ar fudd y cyhoedd wrth ddiogelu ffynonellau newyddiadurwyr.

Pennod 2 – Adfer ffocws craffach ar amddiffyn hawliau sylfaenol

49. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar gynigion i adfer ffocws cliriach ar amddiffyn hawliau sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ffocws yn parhau ar hawliadau hawliau dynol gwirioneddol, diogelu'r cydbwysedd rhwng hawliau a chyfrifoldebau, a lleihau beichiau ar awdurdodau cyhoeddus. Bydd y bennod yn ymdrin â:

- Cam caniatâd ar gyfer hawliadau hawliau dynol;
- Atebion barnwrol: adran 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol; a
- Rhwymedigaethau cadarnhaol.

Cam caniatâd ar gyfer hawliadau hawliau dynol

50. Mae'r Llywodraeth yn credu bod hawliau dynol yn darparu gwarantau unigol sylfaenol mewn cymdeithas, ond bod ymddiriedaeth yn y system honno'n cael ei cholli pan ddaw achosion dibwys gerbron y llysoedd. Mae'r Llywodraeth yn dadlau y dylai llysoedd ganolbwyntio ar achosion lle bu niwed neu golled ddifrifol.

51. Yng Nghwestiwn 8 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd a fyddai amod bod hawliwr wedi dioddef 'anfantais sylweddol' er mwyn dwyn hawliad o dan y Bil Hawliau, fel rhan o'r cam caniatâd ar gyfer hawliadau o'r fath, yn ffordd effeithiol o sicrhau bod llysoedd yn canolbwyntio ar faterion hawliau dynol gwirioneddol. O'r 2,867 o ymatebwyr a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, atebodd 2,568 (90%) na, ac atebodd 299 (10%) yn gadarnhaol. Soniodd 816 o ymatebwyr fod y term 'anfantais sylweddol' yn oddrychol a bod angen ei ddiffinio. Soniodd 803 o ymatebwyr fod gan bob achos hawliau dynol yr hawl i gael eu clywed a soniodd 703 o ymatebwyr nad oes tystiolaeth bod y system bresennol yn cael ei chamddefnyddio na bod honiadau annilys yn cael eu cyflwyno. Nododd 611 o ymatebwyr fod cam caniatâd eisoes ar gyfer achosion adolygiad barnwrol.

52. Yng Nghwestiwn 9 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd a ddylai cam caniatâd hefyd gynnwys cymal 'pwysigrwydd cyhoeddus tra phwysig' ar gyfer achosion eithriadol sy'n methu â chyrraedd y trothwy 'anfantais sylweddol', ond lle mae rheswm cymhellol iawn dros gael ei glywed. O'r 1,913 a ymatebodd, atebodd 1,459 (76%) na, ac ymatebodd 454 (24%) yn gadarnhaol. Roedd yn well gan 530 o ymatebwyr y trefniadau presennol.

53. Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn argyhoeddedig bod cyflwyno cam caniatâd yn angenrheidiol i sicrhau nad yw hawliadau dibwys yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn hawliau dynol yn ehangach ond mae wedi diwygio'r cynnig yn seiliedig ar ddatblygu a dadansoddi polisi pellach. Bydd y cam caniatâd yn cael ei fodelu'n rhannol ar faen prawf derbynoldeb Llys Strasbwrg ar 'anfantais sylweddol' yn Erthygl 35 o'r Confensiwn, a bydd yn gysylltiedig yn benodol â'r gyfreitheg o dan y rhain.
54. Bydd y cam caniatâd yn berthnasol lle dibynnir ar hawliau'r Confensiwn i ddwyn achos penodol yn erbyn awdurdod cyhoeddus o dan y Bil Hawliau.
55. Ni fydd y cam caniatâd yn berthnasol pan fydd person yn dibynnu ar hawliau'r Confensiwn mewn unrhyw achos cyfreithiol a ddygir yn ei erbyn neu wrth sefydlu achos gweithredu sy'n codi ac eithrio o dan y Bil Hawliau, er enghraifft, i ddatblygu achos gweithredu o dan y gyfraith gyffredin. Bydd hawliau'r Confensiwn yn parhau i fod yn orfodadwy mewn llysoedd domestig ledled y DU.
56. Bydd y cynnig hwn yn gosod cyfrifoldeb ar yr hawlydd i ddangos ei fod wedi dioddef anfantais sylweddol cyn y gall hawliad hawliau dynol gael ei glywed yn y llys. Os na all hawlydd ddangos ei fod wedi dioddef anfantais sylweddol, gallai hawliad fynd yn ei flaen o hyd os bydd llys yn ystyried bod rheswm cymhellol iawn dros wneud hynny ar sail budd cyhoeddus eithriadol. Dim ond yng Nghymru a Lloegr y bydd y cam caniatâd ar gyfer adolygiad barnwrol yn berthnasol.

Atebion barnwrol: adran 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol

57. Mae'r Llywodraeth am i'r Bil Hawliau ganolbwyntio o'r newydd ar hawliadau sy'n seiliedig ar hawliau ar achosion difrifol lle mae angen mynd i'r afael ag anghyfiawnder gwirioneddol, ac nid fel llwybr wrth gefn i iawndal yn ogystal ag atebion cyfraith breifat. Roedd un cynnig y buom yn ymgynghori arno yn ymwneud â chryfhau'r rheol yn adran 8(3) o'r Ddeddf Hawliau Dynol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i hawliadau eraill gael eu hystyried wrth ddyfarnu iawndal. Byddai hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr fynd ar drywydd unrhyw hawliadau eraill a allai fod ganddynt yn gyntaf, er mwyn caniatáu i'r llysoedd benderfynu a yw hawliadau cyfraith breifat eisoes yn darparu iawn digonol.
58. Yng Nghwestiwn 10 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd sut arall y gallai'r Llywodraeth sicrhau orau y gall y llysoedd ganolbwyntio ar achosion gwirioneddol o gam-drin hawliau dynol. Soniodd 1,570 o ymatebwyr nad oedd angen unrhyw newid, a soniodd 672 o ymatebwyr fod y cyfyngiadau gweithdrefnol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn ddigonol.

59. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ofalus. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod angen newidiadau i sicrhau bod ffocws yn cael ei roi ar achosion difrifol o anghyfiawnder gwirioneddol. Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig cryfhau'r rheol bresennol yn adran 8(3) o'r Ddeddf Hawliau Dynol.
60. Yn lle hynny, bydd y Bil Hawliau yn ymgorffori set o egwyddorion mewn statud ar gyfer dyfarnu iawndal sy'n annibynnol ar un Llys Strasbwrg, a chaniatáu i lysoedd y DU ystyried dyfarniadau o'r fath yng nghyd-destun y DU. Byddwn hefyd yn cyflwyno darpariaeth i lysoedd ystyried budd y cyhoedd wrth wneud dyfarniad, drwy roi ystyriaeth benodol i rai ffactorau megis yr effaith ar allu awdurdod cyhoeddus i barhau i ddarparu gwasanaethau i gymdeithas yn ei chyfanrwydd – mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd ag argymhellion polisi'r Llywodraeth mewn perthynas ag atebion (Cwestiwn 26).
61. Bydd y Bil hefyd yn gweithredu dyfarniad Strasbwrg yn *SW v Y Deyrnas Unedig*, a ddaeth yn derfynol ym mis Medi 2021. Roedd yr achos hwn yn ymwneud â chyfyngiadau ar argaeledd iawndal ar gyfer gweithredoedd barnwrol a wneir yn ddidwyll o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Dyfarnodd Llys Strasbwrg fod yr hawl i fywyd preifat a theuluol wedi'i dorri o dan Erthygl 8. Byddwn yn cynnwys darpariaeth i ganiatáu i iawndal fod ar gael pan fydd hawliau unigolyn o dan Erthygl 8 yn cael eu torri o ganlyniad i'r barnwr yn dilyn proses annheg.

Rhwymedigaethau cadarnhaol

62. Mae hawliau Confensiwn yr ECHR wedi'u dehongli a'u hehangu'n gynyddrannol gan y llysoedd i'w gwneud yn ofynnol i'r wladwriaeth gyflawni 'rhwymedigaethau cadarnhaol' amrywiol - dyletswyddau i awdurdodau cyhoeddus gymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod hawliau rhywun yn cael eu hamddiffyn. Gall rhwymedigaethau o'r fath wyro blaenoriaethau gweithredol, a mynnu bod gwasanaethau cyhoeddus yn dyrannu adnoddau prin i herio a lliniaru atebolrwydd cyfreithiol. Enghraifft o hyn yw'r dyletswyddau ataliol sydd wedi codi ynghylch Erthygl 2, a rheoli gweithrediadau Bygythiad i Oes, o ganlyniad i ddyfarniad *Osman*². Gall gweithrediadau o'r fath gymryd cryn dipyn o amser yr heddlu ac amddifadu'r heddlu o'r gallu i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch ble i ddyrannu amser ac adnoddau. Roedd gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn edrych ar ffyrdd o gyfyngu ar yr amgylchiadau lle mae'r rhwymedigaethau hyn yn cael eu gosod gan yr hyn a all fod yn gyfystyr â deddfwriaeth farnwrol.

² *Osman v United Kingdom* [1999] 29 EHRR 245 - gwler: *OSMAN v. THE UNITED KINGDOM* (coe.int)

63. Yng Nghwestiwn 11 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd sut y gall y Bil Hawliau fynd i'r afael â gosod ac ehangu rhwymedigaethau cadarnhaol i atal cyfreitha hawliau dynol costus rhag effeithio ar flaenoriaethau gwasanaethau cyhoeddus. Nododd 1,596 o ymatebwyr nad oes angen unrhyw newid i'r fframwaith presennol. Soniodd 1,265 o ymatebwyr eu bod yn credu bod rhwymedigaethau cadarnhaol yn darparu amddiffyniad i bobl agored i niwed ac roedd 874 o ymatebwyr o'r farn nad yw hwn yn fater gwirioneddol.
64. Rydym wedi edrych ar yr agweddau a fynegwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i leihau'r baich ar awdurdodau cyhoeddus a galluogi arbenigwyr gweithredol i arfer mwy o ddisgresiwn ynghylch dyrannu adnoddau.
65. Bydd y Bil Hawliau yn sicrhau nad yw llysoedd yn gallu mabwysiadu dehongliadau newydd sy'n gosod rhwymedigaethau cadarnhaol ar awdurdodau cyhoeddus. Bydd hefyd yn cyfyngu ar y defnydd o'r rhwymedigaethau presennol, drwy gyfarwyddo llysoedd i ystyried ystod o ffactorau wrth bwysu a mesur a yw'r rhwymedigaeth gadarnhaol yn berthnasol, megis budd y cyhoedd o alluogi arbenigwyr gweithredol i arfer disgresiwn mewn blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, ac ymddygiad y sawl yr honnir bod ei hawl wedi'i thorri.

Pennod 3 – Atal ehangu hawliau fesul cam heb oruchwyliaeth ddemocrataidd briodol

66. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar gynigion y Llywodraeth i atal ehangu hawliau'n gynyddrannol heb oruchwyliaeth ddemocrataidd briodol, gan gynnwys cyfyngu ar y ddyletswydd ar lysoedd y DU i ail-ddehongli deddfwriaeth a ddeddfwyd gan y Senedd, a thrwy egluro cyfyngiadau ar alltudio, ond hefyd cyffwrdd ag agweddau eraill ar hawliau'r fframwaith. Mae'n cynnwys:

- Ewyllys y Senedd: adran 3 o'r Ddeddf Hawliau Dynol;
- Datganiadau anghydawsedd: adran 4 o'r Ddeddf Hawliau Dynol;
- Gorchmynion adfer: adran 10 o'r Ddeddf Hawliau Dynol;
- Datganiad o gydnawsedd – adran 19 o'r Ddeddf Hawliau Dynol;
- Gweinyddiaethau Datganoledig;
- Awdurdodau cyhoeddus: adran 6 o'r Ddeddf Hawliau Dynol;
- Awdurdodaeth alltirogaethol;
- Hawliau cymwys a chyfyngedig;
- Alltudio er budd y cyhoedd;
- Mudo anghyfreithlon ac afreolaidd; a
- Rhwymediau a budd ehangach y cyhoedd.

Parchu ewyllys y Senedd: adran 3 o'r Ddeddf Hawliau Dynol

67. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth o'r farn bod adran 3 o'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi arwain at ymagwedd eang gyda llysoedd yn addasu deddfwriaeth, yn hytrach na'i dehongli'n unig. Credwn y byddai dyletswydd ddeongliadol lai eang yn rhoi mwy o sicrwydd cyfreithiol, gwahaniad cliriach rhwng pwerau, ac agwedd fwy cytbwys at y berthynas gyfansoddiadol briodol rhwng y Senedd a'r llysoedd ar faterion hawliau dynol. Credwn felly y dylid diddymu adran 3, gan ganiatáu dehongli statudol o egwyddorion arferol y gyfraith gyffredin.

68. Mae'r Llywodraeth yn nodi argymhelliad y Panel IHRAR i wella rôl y Senedd, yn enwedig rôl y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (JCHR), wrth graffu ar ddyfarniadau adran 3. Argymhellodd y Panel IHRAR y dylid ystyried sut y gellid gwella ystyriaeth seneddol o ddyfarniadau adran 3. Yn olaf, argymhellodd y Panel IHRAR greu cronfa ddata dyfarniadau i gynyddu tryloywder wrth gymhwyso adran 3.

69. Yng Nghwestiwn 12 o'r ymgynghoriad, gwahoddwyd barn ar yr opsiynau ar gyfer diwygio adran 3, gan gyfeirio at y cymalau enghreifftiol ar gyfer Opsiwn 2 (sydd i'w gweld yn atodiad 2 y ddogfen ymgynghori). O'r 2,256 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, roedd yn well gan 1,773 (79%) 'ddim y naill na'r llall – yn ffafrio dim newid', roedd 249 (11%) yn ffafrio 'ddim y naill na'r llall', 86 (4%) yn ffafrio 'Opsiwn 1', ac 88 (4%) yn ffafrio 'Opsiwn 2'.
70. Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn argyhoeddedig bod angen diwygio adran 3 er mwyn sicrhau bod pwerau'r llysoedd a'r Senedd yn cael eu gwahanu'n gliriach. Felly rydym yn bwriadu diddymu adran 3. Bydd hyn yn ail-gydbwysu'r dull o ddatrys materion hawliau dynol o blaid y Senedd. Ni fydd gan y llysoedd bellach bwerau dehongli ychwanegol i newid y dehongliad o ddeddfwriaeth i'w gwneud yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn. Yn lle hynny, y Senedd fydd yn gyfrifol am ddeddfu yn dilyn datganiad anghydnawsedd.
71. Bydd pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i gadw effaith dehongliadau a wneir o dan yr adran honno yn cyd-fynd â diddymiad adran 3. Mae hyn er mwyn cynorthwyo sicrwydd cyfreithiol mewn sefyllfaoedd lle mae dehongliad a wneir o dan adran 3 yn rhan sefydledig o'r cynllun deddfwriaethol.
72. Ni fydd darpariaethau i ddisodli adran 3 yn cael eu cymhwysu i gyfraith a wneir o dan y deddfau datganoli. Mae deddfwriaeth ddatganoledig nad yw'n cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn y tu hwnt i gymhwysedd yr awdurdodau datganoledig. Mae gan y deddfau datganoli weithdrefnau ar waith i ymdrin â materion o'r fath, ac nid yw'r diwygiadau hyn yn ceisio amharu ar y rheini.
73. Yng Nghwestiwn 13 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd sut y gellid gwella rôl y Senedd o ran ymgysylltu â dyfarniadau adran 3 a chraffu arnynt. O'r 1,407 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, soniodd 762 o ymatebwyr am resymau eraill (gan gynnwys, er enghraifft, y gallai newid o'r fath gael ei wneud o dan weithdrefnau mewnol y Senedd ac nad oes angen deddfwriaeth), soniodd 571 o ymatebwyr nad oes angen unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol o ran y fframwaith a soniodd 103 o ymatebwyr y dylai gweithgor trawsbleidiol (fel y JCHR) graffu ar ddyfarniadau adran 3.
74. Yng Nghwestiwn 14 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd a ddylid creu cronfa ddata newydd i gofnodi'r holl ddyfarniadau sy'n dibynnu ar adran 3 wrth ddehongli deddfwriaeth. O'r 1,532 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, dywedodd 832 (56%) na ac atebodd 637 (44%) yn gadarnhaol. Rhoddodd 643 o ymatebwyr reswm o blaid neu yn erbyn y cynnig, megis y dylai'r gronfa ddata gynnwys yr holl ddyfarniadau a wneir gan lysoedd y DU, p'un a ydynt yn berthnasol i'r Ddeddf Hawliau Dynol ai peidio. Soniodd 416 o ymatebwyr y byddai cronfa ddata o'r fath yn gostus.

75. Ar ôl ystyried y cynnig hwn ymhellach, ni fydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â chynigion i wella rôl y Senedd wrth graffu ar ddyfarniadau adran 3, na chreu cronfa ddata o ddyfarniadau o'r fath, yn y Bil Hawliau.

Pan fo deddfwriaeth yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn: adrannau 4 a 10 o'r Ddeddf Hawliau Dynol a gorchmynion diddymu

Datganiadau o anghydnawsedd

76. Mae'r Llywodraeth yn credu bod datganiadau o anghydnawsedd wedi bod yn ffordd effeithiol o gydnabod rôl ddemocrataidd y Senedd, drwy hwyluso deialog rhwng y llysoedd a'r Senedd. O dan y Ddeddf Hawliau Dynol, dim ond mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth (fel Rheoliadau a Gorchmynion) y gellir gwneud datganiadau o anghydnawsedd pan fo'r Ddeddf Seneddol y gwneir y ddeddfwriaeth oddi tani yn gofyn am yr anghydnawsedd. Nid yw adran 4 yn gymwys fel arall mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth. O dan y gyfraith fel y mae, gall y llysoedd, ymhlith pethau eraill, ddatgan is-ddeddfwriaeth yn annilys neu ddatgymhwyso'r ddarpariaeth dan sylw. Gofynnodd y Llywodraeth, felly, yn yr ymgynghoriad a oes achos dros ddarparu y dylai datganiadau o anghydnawsedd hefyd fod yr unig rwymedi sydd ar gael i lysoedd mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth benodol.

77. Yng Nghwestiwn 15 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd a ddylai'r llysoedd allu gwneud datganiad o anghydnawsedd ar gyfer pob is-ddeddfwriaeth, fel y gallant ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer Deddfau Seneddol. O'r 2,307 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, atebodd 1,717 (74%) na ac ymatebodd 590 (26%) yn gadarnhaol. Soniodd 1,355 o ymatebwyr nad ydynt yn credu bod angen unrhyw newid i'r fframwaith presennol. Yn ogystal, soniodd 61 o ymatebwyr y dylid ymestyn datganiadau anghydnawsedd i bob is-ddeddfwriaeth.

78. Mae'r Llywodraeth yn dal yn argyhoeddedig bod angen diwygio er mwyn rhoi gallu ehangach i lysoedd ddatgan nad yw is-ddeddfwriaeth yn gydnaws. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwneud hyn yr unig opsiynau ar gyfer llysoedd. Byddant yn cadw'r pwerau presennol ochr yn ochr â'r opsiwn newydd hwn. Drwy agor is-ddeddfwriaeth i ragor o ddatganiadau o anghydnawsedd, bydd gan lysoedd yr opsiwn i ddefnyddio'r pŵer hwn fel ateb amgen.

Gorchmynion Dileu

79. Mae Adran 1 o Ddeddf Adolygiadau Barnwrol a Llysoedd 2022 yn caniatáu i lysoedd sy'n gwneud gorchmynion diddymu mewn achosion adolygiad barnwrol yng Nghymru a Lloegr gynnwys darpariaeth sy'n atal effeithiau'r gorchmyn am

gyfnod cyfyngedig o amser, neu'n dileu neu'n cyfyngu ar unrhyw effaith ôl-weithredol o'r dileu. Mae'r adran yn nodi rhagdybiaeth y bydd y pwerau hyn yn cael eu harfer os yw'n ymddangos i'r llys y byddai cynnwys darpariaeth o'r fath, fel mater o sylwedd, yn cynnig iawn digonol. Mae'n nodi nifer o ffactorau y mae'n ofynnol i'r llys roi sylw dyledus iddynt. Mae'r adran yn effeithio ar y rhwymedïau sydd ar gael lle bernir bod is-ddeddfwriaeth yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn mewn achosion adolygiad barnwrol yng Nghymru a Lloegr. Argymhellodd y Panel IHRAR y dylai'r pwerau hyn fod ar gael ym mhob achos lle caiff is-ddeddfwriaeth ei herio o dan y Ddeddf Hawliau Dynol.

80. Yng Nghwestiwn 16, gofynnwyd a ddylai'r cynigion ar gyfer gorchmynion diddymu a ataliwyd a'r gorchmynion diddymu arfaethedig a gyflwynwyd yn y Ddeddf Adolygiadau Barnwrol a'r Llysoedd gael eu hymestyn i bob achos o dan y Bil Hawliau lle canfyddir bod is-ddeddfwriaeth yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn. O'r 1,290 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, atebodd 1,038 (80%) na, 252 (20%) wedi ymateb yn gadarnhaol. Dywedodd 654 o ymatebwyr eu bod yn credu nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r dull presennol.
81. Barn y Llywodraeth yw ei bod yn iawn i orchmynion gohiriedig a gorchmynion diddymu arfaethedig fod yn berthnasol i achosion hawliau dynol, ac mae'n fodlon bod darpariaeth briodol ar gyfer hyn yn y Ddeddf Adolygiadau Barnwrol a'r Llysoedd. Felly, nid oes angen deddfwriaeth bellach ar y mater hwn yn y Bil Hawliau.

Gorchmynion Unioni

82. Mae adran 10 o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn darparu mai dim ond pan fydd gweinidogion yn ystyried bod 'rhesymau cymhellol' dros wneud hynny y gellir defnyddio gorchmynion adfer. Fe'i cynhwyswyd yn y Ddeddf i ddarparu modd o fynd i'r afael â deddfwriaeth anghydnaws yn gyflymach nag sy'n bosibl yn gyffredinol drwy deddfwriaeth sylfaenol. Yn gyffredinol, mae gorchmynion adfer yn ddarostyngedig i fath o weithdrefn Seneddol 'uwchgadarnhaol', er bod gweithdrefn ar gyfer gwneud a chychwyn gorchymyn cyn i ddrafft gael ei gymeradwyo gan y Senedd pan ystyrir bod y mater yn un brys (a elwir yn weithdrefn frys). Mae hyn er mwyn hwyluso ymateb cyflym i ddyfarniadau anffafriol sy'n cyflwyno materion o bwys, hyd yn oed pan nad yw'r Senedd yn eistedd.
83. Yng Nghwestiwn 17 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd a ddylai'r Bil Hawliau gynnwys pŵer gorchymyn adfer, gan amlinellu pedwar opsiwn. O'r 1,320 a ymatebodd yn uniongyrchol, soniodd 333 o ymatebwyr am Opsiwn A (tebyg i'r un a geir yn adran 10 o'r Ddeddf Hawliau Dynol), soniodd 152 o ymatebwyr am Opsiwn B (yn debyg i'r un yn y Ddeddf Hawliau Dynol, ond ni ellid ei ddefnyddio i ddiwygio'r Bil Hawliau ei hun). Soniodd 148 o ymatebwyr am Opsiwn D (dileu yn gyfan gwbl) a soniodd

43 o ymatebwyr am Opsiwn C (cyfyngedig yn unig i orchmynion adfer a wneir o dan y weithdrefn 'brys'). Dywedodd 766 o ymatebwyr nad oes achos dros newid.

84. Rydym wedi ystyried yn ofalus argymhellion y Panel IHRAR a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi penderfynu bod is-ddeddfwriaeth adferol yn parhau i fod yn fesur priodol pan fo rhesymau cymhellol dros ei ddefnyddio mewn rhai amgylchiadau penodol. Rydym yn ychwanegu sicrwydd ynghylch cwmpas y pŵer drwy ei gwneud yn glir na ellir defnyddio is-ddeddfwriaeth adferol i ddiwygio'r Bil Hawliau ei hun, fel yr argymhellodd y Panel IHRAR.

Datganiad cydnawsedd: adran 19 o'r Ddeddf Hawliau Dynol

85. Mae adran 19 o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Fil yn y Senedd fynegi ei farn am gydnawsedd y ddeddfwriaeth â hawliau'r Confensiwn drwy wneud a chyhoeddi un o ddau ddatganiad cyn Ail Ddarlleniad y Bil ym mhob un Tŷ. Rhaid i'r gweinidog ddatgan naill ai yn ei farn ef neu hi bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn (adran 19(1)(a)), neu, er na all wneud y datganiad hwnnw, fod y Llywodraeth serch hynny yn dymuno i'r Senedd fwrw ymlaen â'r Bil (adran 19(1)(b)).
86. Mae dadl ynghylch a yw adran 19 yn sicrhau'r cydbwysedd cyfansoddiadol cywir rhwng y Llywodraeth a'r Senedd, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau cydnawsedd hawliau dynol tra hefyd yn creu lle ar gyfer polisïau arloesol – yn benodol, a yw'r prawf a nodir yn adran 19 yn brawf priodol, ac os nad ydyw, pa fodd y gellid ei wella.
87. Yng Nghwestiwn 18 o'r ymgynghoriad, gwnaethom wahodd barn ar sut yr ydych yn ystyried bod adran 19 yn gweithredu'n ymarferol ac a oes achos dros newid. Soniodd 3,702 o ymatebwyr nad oeddent yn credu bod achos dros newid. O'r 1,180 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, roedd 81 o ymatebwyr o'r farn bod achos dros newid.
88. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod angen diwygio adran 19. Ni fyddwn felly yn ailadrodd y rhwymedigaeth adran 19 yn y Bil Hawliau, er mwyn hwyluso'r gwaith o lunio polisïau arloesol. Mae'r Llywodraeth yn cynnig dileu hyn er mwyn symud oddi wrth y deuaidd gor-symbl a gynigir gan adran 19. Mae'r stigma sy'n gysylltiedig â gwneud datganiad adran 19(1)(b) mewn perygl o weithredu'n effeithiol fel fetu ar lunio polisïau arloesol, hyd yn oed mewn achosion lle gellir amddiffyn deddfwriaeth yn llwyddiannus yn y llys. Bydd y newid hwn yn caniatáu ac yn annog llunio polisïau arloesol a chreadigol sy'n cyflawni nodau'r Llywodraeth yn well, heb atal effeithiau hawliau dynol rhag cael eu hystyried wrth basio Bil.

89. Ni fydd hyn yn atal y Senedd, gan gynnwys y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol, rhag ystyried a dadlau goblygiadau hawliau dynol deddfwriaeth arfaethedig, a bydd deddfwriaeth arfaethedig newydd yn dal i gael ei hategu gan ddadansoddiadau o oblygiadau hawliau dynol. Yn wir, mae dileu datganiad deuaidd ar gydnawsedd yn cydnabod cymhlethdod pennu cydnawsedd â'r Confensiwn.

Cais i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

90. Yng Nghwestiwn 19 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd sut y gall y Bil Hawliau adlewyrchu orau'r gwahanol fuddiannau, hanes a thraddodiadau cyfreithiol ym mhob rhan o'r DU, wrth gadw'r egwyddorion allweddol sy'n sail i Fil Hawliau y DU gyfan. O'r 2,126 o ymatebwyr a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, soniodd 1,126 o ymatebwyr na all y Bil adlewyrchu'r diddordebau a'r traddodiadau hyn a soniodd 84 o ymatebwyr y dylid cael dull gweithredu ar gyfer y DU gyfan.
91. Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i Fil Hawliau y DU gyfan sy'n cynnal cymhwysedd y deddfwrfeydd datganoledig wrth adlewyrchu ein bod yn Undeb cryf o ddiddordebau, hanes a thraddodiadau cyfreithiol amrywiol. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylai pawb yn y DU elwa ar welliannau i'n fframwaith hawliau dynol.
92. Byddwn felly'n sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gwarantu amddiffyniad hawliau i bawb o fewn y DU, tra hefyd yn caniatáu ar gyfer gwahaniaeth yn y ffordd y mae'r fframwaith hawliau'n cael ei gymhwyso a'i weithredu ar draws y DU. Bwriad y Llywodraeth yw gweithredu un fframwaith hawliau dynol ar gyfer y DU sy'n parchu ei thraddodiadau cyfreithiol amrywiol, ond sydd hefyd yn seiliedig ar egwyddorion sy'n gyffredin i bawb.
93. Yng Nghytundeb Belfast (Dydd Gwener y Groglith), ymrwymodd y DU i gwblhau ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yng nghyfraith Gogledd Iwerddon. Drwy'r Bil Hawliau, rydym yn parhau i gyflawni ein hymrwymadau o dan y Cytundeb hwn.
94. At hynny, mae ein diwygiadau yn gwbl unol â'n rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Ymadael, Protocol Gogledd Iwerddon a Chytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU–UE.

Awdurdodau cyhoeddus – adran 6 o'r Ddeddf Hawliau Dynol

95. Mae'r Llywodraeth yn credu bod yr ystod o gyrff a swyddogaethau y mae'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd yn gywir ar y cyfan. Mae gan y fformwleiddiad presennol fantais o hyblygrwydd, sydd wedi caniatáu i gymhwysiad y Ddeddf ddatblygu yn unol â

newidiadau yn y ffordd y caiff swyddogaethau cyhoeddus eu cyflawni. Mae hefyd yn bwysig, fodd bynnag, bod y Bil Hawliau yn rhoi eglurder a sicrwydd cyn belled ag y bo modd ynghylch ei gwmpas. Yn benodol, roedd y Llywodraeth yn dymuno ystyried yn yr ymgynghoriad a oes drafftio amgen a allai gyflawni'r un defnydd yn fras o rwymedigaethau o dan y Bil Hawliau, ond mewn ffordd sy'n cynnig mwy o sicrwydd neu eglurder.

96. Yng Nghwestiwn 20 o'r ymgynghoriad, felly, gofynnwyd a ddylid cadw'r diffiniad presennol o awdurdodau cyhoeddus, neu a ellid rhoi mwy o sicrwydd ynghylch pa gyrrff neu swyddogaethau a gwmpesir. O'r 2,043 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, soniodd 1,789 o ymatebwyr y dylid cadw'r diffiniad presennol, soniodd 90 o ymatebwyr y dylid ehangu'r diffiniad presennol, a soniodd 12 o ymatebwyr y dylid lleihau'r diffiniad presennol.
97. Yng Nghwestiwn 21 o'r ymgynghoriad, gwnaethom wahodd safbwyntiau ar yr opsiynau disodli ar gyfer adran 6(2) er mwyn rhoi mwy o hyder i awdurdodau cyhoeddus gyflawni eu swyddogaethau o fewn ffiniau cyfraith hawliau dynol. O'r 1,735 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, ymatebodd 870 (51%) 'Ddim yn naill na'r llall – mae'n well ganddynt ddim newid'; ymatebodd 499 (30%) 'ddim yn naill na'r llall'; dewisodd 158 (9%) 'Opsiw 2'; Dewisodd 145 (9%) 'Opsiw 1'.
98. Ni fydd y Llywodraeth yn diwygio'r diffiniad o awdurdodau cyhoeddus yn y Bil Hawliau. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn dal yn argyhoeddedig y gall y Bil Hawliau roi mwy o eglurder ynghylch rhwymedigaethau awdurdodau cyhoeddus. Bydd y Bil Hawliau yn ei gwneud yn glir, pan fydd awdurdodau cyhoeddus yn gweithredu ewyllys y Senedd, na fyddant yn gweithredu'n anghyfreithlon o dan y Bil Hawliau. Bydd yn cyflawni hyn drwy ddileu pŵer llysoedd y DU i ddehongli deddfwriaeth mewn ffyrdd nad ydynt yn cyd-fynd ag ystyr arferol y geiriau a diben cyffredinol y statud. Mae hyn yn sicrhau y bydd cyfreithiau'n cael eu dehongli mewn modd sy'n gyson ag ewyllys y Senedd. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi mwy o sicrwydd i wasanaethau cyhoeddus wneud y swyddi a ymddiriedwyd iddynt, heb y bygythiad cyson o orfod amddiffyn yn erbyn hawliadau hawliau dynol.

Awdurdodaeth alldiriogaethol

99. Arhosodd y Ddeddf Hawliau Dynol yn dawel ar gwestiwn ei heffaith ar weithgareddau dramor, gan ei gadael i gael ei phennu gan y llysoedd. Rydym wedi gweld sut mae cyfraith achosion domestig a chyfraith achosion Strasbwrg wedi golygu bod dadleuon cyfreithiol cymhleth wedi datblygu pan fydd y Ddeddf Hawliau Dynol ac yn wir y Confensiwn yn berthnasol dramor mewn sefyllfaoedd mor heriol â gwrthdaro arfog, ac ynghylch y rhyngweithio rhwng y Confensiwn a chyfraith gwrthdaro arfog mewn sefyllfaoedd o'r fath.

100. Yng Nghwestiwn 22 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd am farn pobl ar y dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â mater awdurdodaeth alldiriogaethol, gan gynnwys y tensiwn rhwng cyfraith gwrthdaro arfog a'r Confensiwn mewn perthynas â gwrthdaro arfog alltiriogaethol. O'r 1,085 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, soniodd 745 o ymatebwyr y dylai'r Bil fod yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus Prydeinig dramor ym mhob amgylchiad lle mae'r ECHR yn berthnasol, heb unrhyw newid i'r trefniadau presennol.
101. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, nad oes ateb domestig unochrog i'r mater hwn a bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda phartneriaid yng Nghyngor Ewrop i fynd i'r afael â chymhwysiad alltiriogaethol y Confensiwn ar lefel ryngwladol.
102. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn, wrth inni ymgymryd â diwygio hawliau dynol domestig ehangach, mai dyma'r amser iawn i nodi ar lefel ddomestig ein hymrwymiad i'r egwyddor na ddylai hawliadau sy'n ymwneud â gweithrediadau milwrol tramor gael eu dwyn o dan ddeddfwriaeth hawliau dynol, o ystyried nad oedd y Confensiwn wedi'i fwriadu'n wreiddiol i'w gymhwyso'n alldiriogaethol ac na chafodd erioed ei gynllunio i reoleiddio sefyllfaoedd o wrthdaro.
103. Fel y nododd yr ymgynghoriad, pe bai cwmpas alltiriogaethol y Bil Hawliau yn cael ei gyfyngu, byddai angen newidiadau deddfwriaethol eraill er mwyn i'r DU barhau i fodloni ei rhwymedigaethau o dan y Confensiwn. Byddwn yn cyflwyno'r 'rhwymedïau amgen' angenrheidiol drwy ddeddfwriaeth ddiweddarach, gyda darpariaeth yn y Bil Hawliau yn nodi na fydd y gwaharddiad ar gyfer gweithrediadau milwrol tramor yn dod i rym oni bai a hyd nes y bydd y rhwymedïau amgen yn eu lle. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bydd gan bersonél y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr ffordd o wneud hawliadau yn erbyn y Weinyddiaeth Amddiffyn o hyd.
104. Mae'r Llywodraeth yn parhau i ymrwymo i gynnal a chryfhau rheolaeth y gyfraith mewn perthynas â'r Lluoedd Arfog, a fydd yn parhau i gadw at eu dyletswydd i weithredu'n gyfreithlon a chynnal y safonau uchaf. Bydd ein Lluoedd Arfog yn parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan gyfraith ryngwladol, gan gynnwys cyfraith ddyngarol ryngwladol, mewn unrhyw sefyllfa o wrthdaro arfog.

Hawliau amodol a chyfyngedig

105. Mae'r Confensiwn yn cydnabod rhai hawliau fel rhai 'cymwysedig', gan gynnwys yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8); rhyddid meddwl,

cydwybod a chrefydd (Erthygl 9); rhyddid mynegiant (Erthygl 10); a rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu (Erthygl 11). Wrth ddehongli'r hawliau hyn, mae'n ofynnol i lysoedd gynnal ymarfer cydbwysu drwy ystyried gweithredoedd awdurdodau cyhoeddus a phenderfynu, yn gyntaf, a oedd hawl wedi'i thorri ac, yn achos hawl amodol, a ellid cyfiawnhau'r ymyrraeth honno. Rhoddodd y Ddeddf Hawliau Dynol effaith i'r ymarfer cydbwysu hwn drwy ganiatáu i'r llysoedd ystyried gweithredoedd awdurdodau cyhoeddus a arweiniodd at ei gwneud yn ofynnol i lysoedd ddefnyddio pwerau eang i asesu a oedd awdurdod cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd gymesur pan oedd ei weithredoedd wedi torri amodau hawliau dynol unigolyn.

106. Yn absenoldeb unrhyw eglurder yn y Ddeddf Hawliau Dynol, mae barn barnwyr wedi amrywio o ran hyd a lled y pwerau dan sylw. Mae rhai wedi ystyried bod hyn yn dibynnu ar y math o gyfraith sy'n cael ei hystyried a'r wybodaeth berthnasol a allai fod gan y llys am y mater dan sylw. Mae'r Llywodraeth o'r farn na roddodd y Ddeddf Hawliau Dynol ddigon o eglurder yn y maes hwn.
107. Mae hawliau eraill yn y Confensiwn, a elwir yn hawliau 'cyfyngedig', a all fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, megis yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5) a'r hawl i brawf teg (Erthygl 6).
108. Yn gyffredinol, mae'r Llywodraeth yn credu, er ei bod yn ofynnol i'r llysoedd benderfynu ar gymhwyso hawliau i ffeithiau penodol unrhyw achos, lle mae'r Senedd wedi mynegi ei hewyllys glir ar faterion cymhleth ac amrywiol yn ymwneud â budd y cyhoedd, y dylid parchu hyn.
109. Yng Nghwestiwn 23 o'r ymgynghoriad, fe wnaethom wahodd barn ar i ba raddau y mae cymhwyso'r egwyddor o 'gymesuredd' wedi arwain at broblemau, yn ymarferol, o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. O'r 971 o ymatebion a ystyriodd i ba raddau y cymhwyswyd egwyddor cymesuredd, ymatebodd 679 (70%) 'Arall' (heb roi unrhyw farn y naill ffordd na'r llall) ac ymatebodd 229 (24%) 'Dim o gwbl'.
110. Roedd Cwestiwn 23 o'r ymgynghoriad hefyd yn amlinellu dau gymal drafft (sydd i'w gweld yn atodiad 2 y ddogfen ymgynghori) ar sut i ddarparu canllawiau i'r llysoedd ar gydbwysu hawliau amodol a chyfyngedig. O'r 1,886 o ymatebwyr a ymgysylltodd â'r opsiynau ar gyfer diwygio ymatebodd 1,250 (66%) 'Ddim y naill na'r llall – mae'n well ganddynt ddim newid'; Ymatebodd 436 (23%) 'Ddim y naill na'r llall'; Ymatebodd 84 (4%) 'Opsiwn 2' ac atebodd 78 (4%) 'Opsiwn 1'.
111. Mae'r Llywodraeth yn dal yn argyhoeddedig bod angen diwygio'r broses o gydbwysu hawliau er mwyn sicrhau parch dyledus i wahanol rolau'r llysoedd a'r Senedd. Byddwn felly'n darparu canllawiau i'r llysoedd, gan nodi, lle mae'r Senedd wedi mynegi ei barn ar fudd y cyhoedd drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, y dylai'r

llysoedd feirniadu'r farn honno. Byddai hyn yn berthnasol pryd bynnag y byddai ystyriaethau budd y cyhoedd yn codi (boed mewn perthynas â chymesuredd neu, yn fwy cyffredinol, cwmpas hawl). Rydym am i benderfyniadau ynghylch hawliau dynol gael eu gwneud mewn ffordd deg a chytbwys, sy'n ystyried anghenion yr unigolyn sydd wedi honni bod ei hawliau wedi'u torri, ond sydd hefyd yn sicrhau ystyriaeth briodol i hawliau eraill a buddiannau amrywiol cymdeithas fel cyfanwaith.³ Bydd y Bil Hawliau yn diogelu rôl y Senedd, gan adfer gallu deddfwyr etholedig i arfer eu crebwyll wrth gydbwyso polisiau economaidd-gymdeithasol cymhleth ac amrywiol, â buddiannau ehangach cymdeithas. Ni fwriedir i'r ddarpariaeth hon ddisodli Erthygl 9, Bil Hawliau Lloegr 1689.

Alltudion er budd y cyhoedd

112. Mae'r Llywodraeth yn credu bod hyder y cyhoedd yn ein fframwaith hawliau dynol yn cael ei erydu pan fydd troseddwr tramor yn gallu osgoi cael eu halltudio, oherwydd bod eu hawliau dynol yn cael mwy o bwysau na diogelwch y cyhoedd.
113. Yng Nghwestiwn 24, gofynnwyd sut y gallwn sicrhau nad yw alltudiadau sydd er budd y cyhoedd yn cael eu rhwystro gan hawliadau hawliau dynol, a gwahoddwyd barn ar ba un o'r tri opsiwn fyddai'n cyflawni hyn orau. O'r 1,783 o ymatebion a oedd yn ymwneud â'r tri opsiwn a grybwyllwyd yn y cwestiwn dywedodd 1,470 (82%) nad oedd yr un o'r opsiynau yn well ganddynt; roedd 129 (7%) yn ffafrio Opsiwn 3; oedd 80 (4%) yn ffafrio Opsiwn 2; roedd 72 (4%) yn ffafrio Opsiwn 1.
114. Soniodd 1,373 o ymatebwyr eu bod nhw o'r farn nad oes angen gwneud unrhyw newid i'r fframwaith presennol. Mae'r Llywodraeth yn dal yn argyhoeddedig bod angen diwygio er mwyn sicrhau bod troseddwr o dramor yn cael eu hallgludo os ydynt wedi dangos o amharch neu ddim parch o gwbl tuag at hawliau pobl eraill drwy gyflawni troseddau yn y DU. Felly, byddwn yn deddfu i osod trothwy cyfansoddiadol uchel o ran darpariaethau allgludo sy'n berthnasol i Erthygl 8 y Confensiwn (hawl i barch at fywyd preifat a theuluol) wrth i'r Llysoedd ystyried pa mor gydnaws ydy'r hawliau hynny. Bydd y Llywodraeth hefyd yn gosod cyfyngiadau ar bŵer y llys wrth ystyried achosion apêl yn erbyn allgudo ar sail Erthygl 6 (hawl i dreial teg). Yn benodol, byddwn yn cyflwyno prawf llym yn y gyfraith ar gyfer achosion apêl fel bod yn rhaid eu gwrthod oni fodlonir trothwy uchel iawn.

³ Er enghraifft, gweler SC, CB ac 8 o blant, R. (ar gais) v Yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Gwaith a Phensiynau ac Ors [2021] UKSC 26 (9 Gorffennaf 2021) (bailii.org)

Mudo anghyfreithlon ac afreolaidd

115. Yng Nghwestiwn 25, gofynnwyd sut, wrth barchu ein rhwymedigaethau rhyngwladol, y gallem fynd i'r afael yn fwy effeithiol, ar lefel ddomestig a rhyngwladol, â'r rhwystrau sy'n deillio o'r Confensiwn a'r Ddeddf Hawliau Dynol i fynd i'r afael â'r heriau a achosir gan fudo anghyfreithlon ac afreolaidd. O'r 1,821 o ymatebwyr a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn, soniodd 1,236 o ymatebwyr nad oes angen unrhyw newid i'r fframwaith presennol, dywedodd 90 o ymatebwyr y dylid atal mudo anghyfreithlon neu afreolaidd yn hytrach na chanolbwyntio ar alltudio a dywedodd 44 o ymatebwyr y dylid newid y broses neu feini prawf ar gyfer mewnfudo i gael fisa.
116. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn fanwl y materion a godwyd yn y maes hwn, gyda Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 28 Ebrill. Mae hyn yn rhan bwysig o Gynllun Mewnfudo Newydd y Llywodraeth, gan ddarparu system loches deg ond cadarn, atal mynediad anghyfreithlon i'r DU, torri'r model busnes o rwydweithiau smyglo pobl, a chyflymu'r broses o gael gwared ar y rheini nad oes ganddynt hawl i fod yn y DU.

Rhwymedïau a budd ehangach y cyhoedd

117. Mae'r Llywodraeth yn credu y gellir defnyddio'r system iawndal i wneud yn siŵr bod budd ehangach y cyhoedd yn cael ei ddiogelu'n briodol ochr yn ochr â hawliau unigolion. Credwn, pan fydd achosion yn cael eu dwyn yn erbyn awdurdodau cyhoeddus, y dylai fod gan y llysoedd gyfrifoldeb i ystyried effaith dyfarnu rhwymedi ar allu'r awdurdod cyhoeddus i gyflawni ei ffordd.
118. Yng nghwestiwn 26, gwnaethom wahodd barn ar y pedwar ffactor y gallai'r Bil Hawliau eu sefydlu wrth ystyried pryd y caiff iawndal ei ddyfarnu a faint. O'r 1,344 a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn, dywedodd 343 o ymatebwyr y dylid cynnwys ffactor C (maint y toriad), dywedodd 175 o ymatebwyr y dylid cynnwys ffactor B (i ba raddau yr oedd y rhwymedigaeth statudol wedi'i chyflawni), 172 dywedodd ymatebwyr y dylid cynnwys ffactor A (yr effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus) a dywedodd 127 o ymatebwyr y dylid cynnwys ffactor D (lle'r oedd yr awdurdod cyhoeddus yn ceisio rhoi effaith i ddarpariaethau datganedig, neu ddiben clir, deddfwriaeth). Dywedodd 709 o ymatebwyr y dylid barnu iawndal / achosion fesul achos a dywedodd 255 o ymatebwyr nad oes angen gwneud unrhyw newid i'r fframwaith presennol.
119. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus y safbwyntiau a fynegwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi dod i'r casgliad bod angen diwygio er mwyn rhoi ystyriaeth ddyledus i fudd ehangach y cyhoedd wrth ddyfarnu atebion. Fel y

cyfeirir ato uchod, wrth gynnal disgresiwn eang i lysoedd wrth benderfynu ar atebion, bydd y Bil Hawliau yn cyfarwyddo llysoedd ar sail nad yw'n hollgynhwysfawr i ystyried pa mor ddifrifol yw effeithiau'r weithred anghyfreithlon. Mae'r rhain yn cynnwys ymddygiad perthnasol yr unigolyn sy'n ceisio iawndal, unrhyw rwymedi arall a roddwyd iddo, a'r effaith ar allu awdurdod cyhoeddus i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r gymdeithas gyfan, gan gynnwys dyfarnu iawndal yn y dyfodol mewn achosion tebyg.

Pennod 4 – Pwysleisio rôl cyfrifoldebau o fewn y fframwaith hawliau dynol

120. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar gynigion y Llywodraeth i bwysleisio rôl cyfrifoldebau o fewn y fframwaith hawliau dynol. Mae gan bawb hawliau dynol ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r gymuned, ni waeth a ydynt yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau, a chred y Llywodraeth y dylai ein fframwaith hawliau dynol newydd adlewyrchu pwysigrwydd cyfrifoldebau.
121. Yng Nghwestiwn 27 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd a ddylai'r Bil Hawliau gynnwys rhywfaint o sôn am gyfrifoldebau a/neu ymddygiad hawlwr. Fe wnaethom ddarparu dau opsiwn o ran y ffordd orau i ni gyflawni hyn:
- Opsiwn 1 Creu sefyllfa lle gellir lleihau neu ddileu iawndal oherwydd ymddygiad yr ymgeisydd sydd wedi'i gyfyngu'n benodol i amgylchiadau'r hawliad; neu
- Opsiwn 2 Creu sefyllfa lle gellir lleihau'r iawndal yn rhannol neu'n llawn oherwydd ymddygiad ehangach yr ymgeisydd, ac a ddylai fod unrhyw derfynau, yn amserol neu fel arall, o ran yr ymddygiad sydd i'w ystyried.
122. O'r 2,526 a ymatebodd, nid oedd yn well gan 1,244 (52%) y naill na'r llall o'r opsiynau. Dywedodd 790 (33%) o'r ymatebwyr hynny hefyd nad oeddent yn credu bod angen unrhyw newid. Roedd yn well gan 191 (8%) o ymatebwyr Opsiwn 1 ac roedd yn well gan 157 (7%) o ymatebwyr Opsiwn 2.
123. Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaeth i law, mae'r Llywodraeth yn parhau i fod o'r farn bod cyfrifoldebau a hawliau'r un mor angenrheidiol ar gyfer democratiaeth iach. Bydd y Bil Hawliau yn sicrhau bod llysoedd yn rhoi ystyriaeth benodol i ymddygiad perthnasol ehangach hawliwr wrth ystyried a ddylid dyfarnu iawndal, gan gadarnhau'r cysylltiad sy'n bodoli rhwng hawliau a chyfrifoldebau.
124. Efallai y bydd ymddygiad hawliwr eisoes wedi'i ystyried gan y llysoedd Strasbwrg a domestig wrth ystyried a ddylid dyfarnu iawndal. Bydd y Bil Hawliau yn cryfhau'r egwyddorion sy'n ymwneud â dyfarnu iawndal drwy eu mynegi mewn statud. Bydd y rhain yn cael eu hadeiladu ar egwyddorion Llys Strasbwrg ei hun ond yn annibynnol arnynt, a byddant yn sicrhau nad yw llysoedd y DU yn dyfarnu iawndal uwch nag y maent yn ystyried y byddai Llys Strasbwrg yn ei ddyfarnu. Bydd y Bil felly yn galluogi llysoedd y DU i ystyried iawndal yng nghyd-destun y DU. Bydd gan lysoedd ddisgresiwn eang o ran sut i ystyried ymddygiad perthnasol

yr hawlydd yn y gorffennol wrth ddyfarnu unrhyw iawndal, fel rhan o holl amgylchiadau'r achos.

Pennod 5 – Hwyluso ystyriaeth a deialog gyda Strasbwrg, wrth warantu rôl briodol y Senedd

125. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar gynigion y Llywodraeth i sicrhau bod y Senedd yn ymwybodol o ddyfarniadau anffafriol Strasbwrg yn erbyn y DU, gan barchu ei rôl gyfansoddiadol bwysig. Mae'r Llywodraeth yn gyfrifol am gydgysylltu'r holl gamau ar gyfer gweithredu dyfarniad terfynol, gan gynnwys cynnig diwygiadau deddfwriaethol i'r Senedd os oes angen y rhain. Yn y DU, fodd bynnag, y Senedd sydd â'r cyfrifoldeb democrataidd am ddeddfwriaeth yn y pen draw, a chredwn y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn ein trefniadau ar gyfer ymateb i ddyfarniadau Strasbwrg.
126. Yng Nghwestiwn 28 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd am sylwadau ar y cynigion ar gyfer ymateb i ddyfarniadau anffafriol Strasbwrg, yng ngoleuni'r cymal drafft enghreifftiol a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad (sydd i'w weld yn atodiad 2 o'r ddogfen ymgynghori).
127. Dywedodd 1,412 o ymatebwyr na ddylid gwneud dim, a dywedodd 218 o ymatebwyr y dylai'r Llywodraeth gadw at ddyfarniadau Strasbwrg.
128. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylai'r Bil Hawliau adlewyrchu'r rôl bwysig sydd gan y Senedd yn ein trefniadau cyfansoddiadol o hyd. Felly, rydym wedi diwygio ein cynnig, gan ystyried yr ymatebion hyn. Byddwn yn cyflwyno darpariaethau yn y Bil Hawliau i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol osod unrhyw ddyfarniadau anffafriol gan Strasbwrg yn erbyn y DU gerbron y Senedd. Byddwn hefyd yn cadarnhau goruchafiaeth y Senedd wrth arfer y swyddogaeth ddeddfwriaethol, drwy egluro statws dyfarniadau a phenderfyniadau Strasbwrg yng nghyfraith y DU.
129. Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnig cynnwys darpariaeth i Weinidogion gyflwyno cynnig ar gyfer dadl yn dilyn dyfarniad anffafriol. Ni fyddwn yn deddfu ar gyfer yr opsiwn hwn gan y gall Gweinidogion gwneud hynny heb bŵer penodol.

Pennod 6 – Effeithiau

130. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ystyried effaith y cynigion polisi a nodir yn y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig penodol. Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd am farn a thystiolaeth ar effeithiau posibl a allai godi o ganlyniad i'r Bil Hawliau arfaethedig. Yn benodol, gofynnwyd beth fyddai'r costau a'r manteision tebygol.
131. Roedd yr ymatebion yn nodi costau yn deillio o'r cynigion, gan gynnwys 359 o ymatebwyr yn sôn am gostau i'r gymdeithas ehangach. Soniwyd hefyd am gostau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus a'r system gyfiawnder. Dim ond cyfran fach o'r ymatebion a grybwyllodd y manteision a ddeilliodd o'r cynigion.
132. Roedd yr ymatebion hefyd yn nodi cymysgedd o effeithiau ar gyfer y rheini â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys oedran, anabledd, crefydd neu gred, ac ailbennu rhywedd. Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, dywedodd 1,092 o ymatebwyr y dylid tynnu'r Bil Hawliau yn ôl.

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr ymatebion yn ofalus ac mae dadansoddiad o'r effeithiau wedi'i ddarparu isod yn yr adran ganlynol. Gellir dod o hyd i'r Asesiad Effaith llawn ar gyfer y Bil Hawliau yn gov.uk.

Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Asesiad Effaith

133. Mae Asesiad Effaith (AE) wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi effeithiau posibl y diwygiadau, gan gynnwys dadansoddi cydraddoldeb.

Prawf ar Effaith yr Iaith Gymraeg

- **A oedd unrhyw ymatebion gan randdeiliaid o Gymru a gododd faterion neu ystyriaethau penodol i Gymru neu siaradwyr Cymraeg y mae angen ymateb iddynt?**
Nid ydym yn credu bod hyn yn wir.
- **Os ydych, a ydych wedi asesu effeithiau tebygol y cynigion polisi ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru ar y gwasanaethau a ddarperir?** Amherthnasol
- **Pa gamau a gymerwyd gennych i sicrhau bod y cynigion polisi yn gyson â'r gofynion a nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder? (e.e. ydych chi wedi ystyried cael cyfieithiad Cymraeg o'r ymateb i'r ymgynghoriad?)**
Bydd cyfieithiad Cymraeg o'r ymateb i'r ymgynghoriad ar gael cyn bo hir yn gov.uk.

Mae canllawiau pellach ar gael yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/moj-welsh-language-scheme-2018>

Casgliad a chymau nesaf

134. Mae'r Llywodraeth yn cyflwyno'r Bil Hawliau i'r Senedd ar 22 Mehefin. Mae'r ymatebion a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad hwn wedi'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu polisi terfynol sy'n cefnogi'r Bil.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1__.pdf

E02763658

978-1-5286-3520-2

